# GALWAD

# SYMUDIAD Y DYFODOL

## DEFNYDDIO SYMUDIADAU CREADIGOL A DAWNS I HELPU I LUNIO'R DYFODOL YR HOFFEM FYW YNDDO




Aelodau ifanc o gast drama GALWAD. Llun: Kirsten McTernan

# Gwybodaeth Gefndir

Gall barddoniaeth, dawns a symud, cerddoriaeth a chelfyddydau eraill fod yn ffyrdd gwirioneddol bwerus o ddelweddu'r dyfodol yr ydym am ei weld. Gellir eu defnyddio i uno, i hyrwyddo newid, ac i ysbrydoli. Mae llawer o enghreifftiau o'r gorffennol, gan gynnwys y mudiad Hawliau Sifil yn America. Daeth nifer o ganeuon yn rhan o'r symudiad hwnnw, megis 'This Little Light of Mine', a 'We Shall Overcome', gan weithredu fel ffynhonnell ysbrydoliaeth, grymuso ac undod i'r rhai a gymerodd ran. Daethant i gynrychioli'r mudiad ac ymgorffori'r dyfodol yr oedd pobl am ei weld.

Yn yr un modd gall cerddi, a hyd yn oed geiriau yn unig, fod yn ddelwedd rymus o fudiad. I rai pobl yng Nghymru, mae'r ymadrodd 'Cofiwch Dryweryn' yn hynod bwerus ac yn procio'r meddwl. Er mai dim ond dau air ydyw, mae ganddo effaith ddiwylliannol atseiniol, sy'n dal i ysgogi trafodaeth heddiw.




Bydd y gweithgaredd hwn, fodd bynnag, yn canolbwyntio ar symud a dawnsio. Mae dawnsio bob amser wedi chwarae ei ran wrth symboleiddio newid. Er enghraifft yn Ne Affrica yn oes apartheid, roedd protestiadau dawns yn rhan bwysig o'r frwydr yn erbyn gormes hiliol – roedd y toyi-toyi yn ddawns gyfunol a ddechreuwyd gan ymladdwyr rhyddid Zimbabwe, ac a fabwysiadwyd yn rymus fel gwrthdystiad gwrth-apartheid yn Ne Affrica. Gwyliwch yr enghraifft hon o blant yn gwneud dawns draddodiadol o Dde Affrica (youtube.com).



Mae Tai chi yn grefft ymladd sy'n seiliedig ar dechnegau 100oedd o flynyddoedd oed



Yng Nghymru mae Dawnsio Gwerin traddodiadol yn dal i gael ei berfformio a'i ddathlu mewn Eisteddfodau



Samoa, Tonga. Mae gan Fiji, a chenhedloedd eraill y môr tawel eu fersiwn eu hunain o'r Haka

Yn Seland Newydd, mae'r Haka, dawns ryfel Māori draddodiadol, bellach yn cael ei gweld fel arwyddlun o undod tîm, gan ddod â phobl Seland Newydd at ei gilydd, waeth beth fo'u cefndir, ac yn symbol o ddyfodol y mae'r wlad am ei weld.

Mae gan Tsieina draddodiad hynafol o grefft ymladd, lle mae'r symudiadau mewn rhai disgyblaethau sy'n ofynnol yn cymylu'r llinell â dawns. Er eu bod yn strwythuredig iawn, maent yn rhan annatod o greu hunaniaeth, ac ymdeimlad o bwrpas gyda manteision iechyd a llesiant enfawr. Maent wedi cael eu gwneud ers canrifoedd a bydd hynny'n parhau  ymhell i'r dyfodol.

Mae dawnsio, a symudiadau yn gyffredinol, yn ffordd wych o wneud datganiad gweledol, a gellir eu defnyddio i greu rhywbeth pwerus - hyd yn oed rhywbeth sy'n helpu i lunio'r dyfodol.

# Gweithgaredd

Isod mae dau weithgaredd yn seiliedig ar ddawnsiau/symudiadau sy'n galluogi disgyblion i ddefnyddio eu creadigrwydd. A allant feddwl am symudiadau a fydd yn ysbrydoli pobl yn y dyfodol? A allant ddelweddu'r dyfodol y maent ei eisiau, a'r rhinweddau y maent yn credu ynddynt a'u dehongli trwy symudiadau? Mae'r ddau weithgaredd yn gweithio orau mewn grwpiau gyda disgyblion yn rhannu syniadau ac yna'n perfformio ar y cyd.

**Haka'r Dyfodol**
Dangoswch y clip o dîm rygbi menywod Seland Newydd, y Black Ferns, yn perfformio'r Haka (youtube.com). Dyma ddawns sy'n helpu i uno'r tîm a'r wlad. Er ei fod yn dod o draddodiad Māori, mae'n gynrychioliadol iawn o sut hoffai Seland Newydd fod yn y dyfodol - yn unedig, yn gynhwysol ac yn falch.  Isod mae cyfieithiad o'r fersiwn hon o'r Haka:

*Gadewch iddo fod yn hysbys*
*Pwy yw'r menywod hyn*
*Dyma ddawns y Black Ferns*
*Grym bywyd oddi uchod*
*Grym bywyd o islaw (daear)*
*Y cymylau'n ymgynnull*
*Y mynyddoedd sy'n tyllu'r awyr*
*Gadewch inni symud*
*I'r moroedd*
*O gorneli'r ynys*
*I'r ynysoedd cyfagos*
*Ac o gwmpas y byd*
*Rydych chi'n sefyll yn dal ac yn falch.*

*Menywod cryfder.*
*Pwy fydd yn dwyn y dyfodol.*
*Black Ferns Seland Newydd.*
*Codwch a pharhewch.*
*Pan ddaw'r her.*
*Byddwn yn casglu ac yn uno gyda'n gilydd.*
*Cryfder gyda'n gilydd. Caiff ei wneud.*

Gofynnwch i'r disgyblion rannu'n grwpiau a rhannu rhai syniadau ynglŷn â pha rinweddau yr hoffent eu dathlu a'u hyrwyddo – yn enwedig gwerthoedd y maen nhw'n meddwl fydd yn bwysig wrth helpu i lunio'r dyfodol. Eu her yw creu eu Haka eu hunain neu ddawnsio gyda symudiadau sy'n cynrychioli'r gwerthoedd hyn – a allant feddwl am rywbeth a fydd yn ysbrydoli pobl yn y dyfodol?

**Tai Chi Gwyrdd**

Mae Tai Chi yn grefft ymladd Tsieineaidd draddodiadol, sy'n cael ei hymarfer er budd iechyd a llesiant. Mae'n cynnwys cyfres o symudiadau gosgeiddig, a gellir eu harfer gan bawb. Yn y gweithgaredd hwn byddwn yn gwneud ein Tai Chi 'Gwyrdd' ein hunain, gan ddefnyddio ein symudiadau ein hunain yn seiliedig ar syniadau disgyblion ar sut i wneud dyfodol ein planed yn fwy ecogyfeillgar.

Gofynnwch i'r disgyblion sut gall y Ddaear fod yn wyrddach yn y dyfodol? Sut gallwn ni sicrhau bod gennym ni'r blaned rydyn ni ei heisiau yn 2052? Mwy o goed? Llai o wastraff? Mwy o deithio llesol? Gan weithio mewn grwpiau bach heriwch y disgyblion i feddwl am wyth ffordd y gallem helpu'r blaned a chreu dyfodol y maent ei eisiau ac yna creu symudiad tai chi i gyd-fynd â phob syniad.  Isod mae rhai awgrymiadau i'ch helpu i ddechrau:



Plannu mwy o goed



Cynhyrchu llai o wastraff



Dathlu cynnyrch lleol

Unwaith y bydd pob grŵp wedi meddwl am eu symudiadau, gallant ddangos eu Tai Chi Gwyrdd i'r grwpiau eraill.

**Syniad amgen:** Ceisiwch wneud y gweithgaredd fel kung fu a chyflwynwch rai symudiadau cyflymach.

**Estyniad**: Yn lle’r dawnsiau/symudiadau uchod, anogwch y disgyblion i ddefnyddio ffurf gelfyddydol wahanol i gynrychioli’r dyfodol maen nhw ei eisiau – mae barddoniaeth, ysgrifennu stori, darlunio a chelf naturiol i gyd yn gweithio’n dda!

## Myfyrio

Gyda'r ddau weithgaredd cymerwch amser i fyfyrio ar symudiadau pob grŵp. Ydyn nhw'n meddwl y byddai pobl ledled y byd eisiau eu gwneud nhw? Oes ganddyn nhw neges bwysig i'w rhannu?

A fydd pobl yn, dyweder 2052, adnabod y gweithredoedd a’r syniadau sydd ynddynt? Mae’n wych myfyrio ar bwysigrwydd dawns a symudiad a chelf yn gyffredinol mewn mudiadau cymdeithasol y gorffennol – a welwn ni rywbeth tebyg yn digwydd gyda’r mudiad i fynd i’r afael â’r argyfyngau hinsawdd a bioamrywiaeth?

## Cysylltiadau â'r cwricwlwm

| | |
|---|---|
| **Dibenion** | - Dinasyddion Moesegol, Gwybodus<br>- Cyfranwyr mentrus, creadigol |
| **MDPh a datganiadau Beth sy'n Bwysig** | **Y Dyniaethau**<br>- Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.<br>- Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn ymgysylltu â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r ddynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyriol a moesol.<br>**Celfyddydau Mynegiannol**<br>- Mae archwilio’r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth artistig ac mae’n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol. |

## Nodau Byd-eang




Nod 3: Iechyd a Llesiant Da

Nod 10 Llai o Anghydraddoldebau

Nod 13: Gweithredu Hinsawdd

# GALWAD

UNBOXED
CREATIVITY IN THE UK

Cymru Greadigol
Creative Wales

Cynhyrchir GALWAD gan Casgliad Cymru a'i gomisiynu gan Cymru Creadigol fel rhan o 'UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU'.


33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB
33-35 Cathederal Road, Cardiff, CF11 9HB
029 2025 6767
keepwalestidy.cymru
info@keepwalestidy.cymru



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government


Eco-Schools
Eco-Sgolion

cadwch gymru'n daclus
keep wales tidy